BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Roger Chaffey
Clerc – Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

04 Tachwedd 2005

Annwyl Mr Chaffey,

Ailstrwythuro'r Heddlu

Diolch i chi am y gwahoddiad i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor yn amlinellu ein barn fel sefydliad ar y broses o adolygu trefniant strwythurol y gwasanaeth heddlu yng Nghymru. Ymatebwn i'ch gwahoddiad isod drwy gynnig sylwadau sy'n berthnasol i'r cylch gorchwyl a nodir yn eich llythyr, gan ganolbwyntio gan fwyaf ar bwynt cyntaf y cylch gorchwyl hwnnw. O fewn ein sylwadau cyfeiriwn at rannau perthnasol adroddiad Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi ar ailstrwythuro'r Heddluoedd - 'Closing the Gap'.

Hoffwn gynnig y rhestr canlynol o argymhellion i'w hystyried o fewn y drafodaeth ar ailstrwythuro heddluoedd yng Nghymru:-

- **Dylid sicrhau y cynhwysir gofyniad i feddu ar Gynllun Iaith Gymraeg mewn unrhyw drefniadau trosiannol**
- **Dylid ystyried bod plismona lleol yng Nghymru yn golygu plismona yn newis iaith yr unigolion a'r cymunedau a wasanaethir**
- **Dylid ystyried pob ffactor sy'n debyg o effeithio ar ddarpariaeth cyfrwng y Gymraeg**
- **Rhaid sicrhau presenoldeb cynrychiolydd dros yr iaith o fewn unrhyw grŵp a sefydlir er goruchwylio'r broses** Reference text.
- **Dylai strwythur newydd yr heddluoedd yng Nghymru sicrhau y gall heddluoedd ymhob rhan o Gymru sefydlu a gweithredu gweithdrefnau monitro safon y ddarpariaeth Gymraeg** Monitoring of Welsh Provision
- **Dylai strwythur yr heddluoedd yn y dyfodol gynnig pob cyfle posib i uwch swyddogion o fewn sefydliadau newydd i feddu ar ddealltwriaeth o'r iaith Gymraeg** Snr Officers must have an understanding of Welsh
- **Argymhellwn yn gryf na ddylai unrhyw newid i strwythur heddluoedd Cymru amharu ar allu heddluoedd i gydweithio er cynyddu'r gallu i blismona'n lleol yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg** Must not impinge on ability to work in Welsh
- **Dylid cytuno ar welliannau trefniadol angenrheidiol fel rhan o'r ail strwythuro hwn er mwyn sicrhau nad yw heddluoedd Cymru yn ei chael yn**

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT
post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5/7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT
post@welsh-language-board.org.uk
www.welsh-language-board.org.uk

T +44 (0)29 2087 8000
Ff +44 (0)29 2087 8001
Cadeirydd_Chair **Meri Huws**
Prif Weithredwr_Chief Executive **Meirion Prys Jones**
Swyddfeydd eraill_Other offices **Caernarfon, Caerfyrddin_Carmarthen**

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

anodd i gwrdd â gofynion statudol eu cynlluniau iaith Gymraeg o ganlyniad i ddylanwad negyddol sefydliadau cysylltiol

- **Dylai unrhyw ailstrwythuro posib anelu i gryfhau potensial partneriaethau i gynnig gwasanaethau sy'n gweddu'r gymdeithas leol, gan gynnwys cynnig gwasanaethau yn Gymraeg**
- **Dylai unrhyw ailstrwythuro ariannol fod yn gyfle i wella safonau plismona lleol yng Nghymru drwy alluogi heddluoedd i flaenoriaethu'r cyllid er ateb y gofynion lleol**

Eglurir y rhesymau am yr argymhellion hyn yn yr adroddiad isod.

Cefndir

Mae cyfrifoldeb statudol, dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ar bob heddlu yng Nghymru i baratoi cynllun iaith Gymraeg. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi pa wasanaethau bydd Heddluoedd yn eu darparu'n Gymraeg ac yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth. Mae Cynlluniau Iaith Gymraeg heddluoedd yn offerynnau pwysig dros ben er sicrhau gwasanaethau plismona lleol o safon. Dywed cymal 1.7 canllawiau statudol y Bwrdd ar gyfer paratoi cynlluniau iaith Gymraeg:-

> *".....bydd yn rhaid i gynlluniau iaith ddatgan y mesurau y bwriada sefydliadau eu cymryd er mwyn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cwmpasu'r gweithgareddau hynny a gyflawnir er budd y cyhoedd yn gyffredinol yn ogystal ag er budd unigolyn neu unigolion penodol. Mae'r ystyr yn cynnwys perthynas cyflenwr/cwsmer rhwng sefydliadau â'r cyhoedd, lle darperir gwasanaethau yn uniongyrchol i aelodau o'r cyhoedd ac unigolion. Mae hefyd yn cynnwys, er enghraifft, cadw cyfraith a threfn....."*

Pa bynnag strwythur y cytunir iddo yn sgil y drafodaeth hon, bydd disgwyliad ar y gyfundrefn i weithredu cynllun iaith Gymraeg er cwrdd gofynion cynlluniau iaith Gymraeg. **Dylid sicrhau y cynhwysir gofyniad i feddu ar Gynllun Iaith Gymraeg mewn unrhyw drefniadau trosiannol**.

(i) Y berthynas rhwng yr heddlu a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu yng Nghymru a materion hunaniaeth leol.

Yn eu hadroddiad, rhydd Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi bwyslais ar blismona lleol. Disgrifia cymal 1.65 adroddiad yr Arolygiaeth yr angen am:-

"A force which is big enough to deliver protection, but still small enough to identify with local communities, is an attractive one. Re-configuring for better protection of, and connection with, the public, needs to be seen as part of a package of police reform for this century."

Cytunwn y dylai gwella'r cyswllt â'r cyhoedd fod yn un o'r prif ystyriaethau wrth gynllunio i ailstrwythuro'r heddluoedd. **Barn y Bwrdd yw bod plismona lleol yng Nghymru yn golygu plismona yn newis iaith yr unigolion a'r cymunedau a wasanaethir.**

Y mae gofynion cynlluniau iaith statudol yn datgan y dylid ystyried gofynion ieithyddol pan fo newidiadau polisi yn digwydd gan symud yn nes at yr egwyddor o sicrhau cyfle cyfartal a manteisio ar bob cyfle posibl i gynyddu darpariaeth cyfrwng Gymraeg. Daw heddweision a swyddogion eraill heddluoedd i gyswllt â chymunedau lleol mewn amryw sefyllfaoedd: ymweld ag ysgolion, ymweld â phobl yn eu cartrefi a cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ymysg pethau eraill. Enghreifftiau yn unig sydd yma ond ymhob un o'r sefyllfaoedd hyn y mae angen ystyried effaith unrhyw strwythur newydd ar ddarpariaeth cyfrwng y Gymraeg gan roi ystyriaeth briodol i'r ddarpariaeth.
Yn achos ail strwythuro'r heddlu **dylid ystyried pob ffactor sy'n debyg o effeithio ar ddarpariaeth cyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r broses o benderfynu ac yna datblygu pecyn o fesurau i gryfhau darpariaeth ddwyieithog.**

Mae'r Bwrdd yn credu'n gryf mai'r unig fodd o sicrhau ystyriaeth briodol i'r iaith o fewn y broses ailstrwythuro, ac yn sgil hynny o fewn holl elfennau gwaith heddluoedd yn y dyfodol, yw drwy **sicrhau presenoldeb cynrychiolydd dros yr iaith o fewn unrhyw grŵp a sefydlir er goruchwylio'r broses.** Byddai'n bosib i gynrychiolydd sydd â dealltwriaeth o anghenion ieithyddol heddluoedd Cymru ymgymryd â gwaith angenrheidiol er sicrhau bod unrhyw ailstrwythuro yn cynnal ac yn gwella safonau plismona yn Gymraeg yng Nghymru. Byddai hyn yn gydnaws â chymal 5.60 adroddiad yr Arolygiaeth sy'n dynodi'r angen i gynnal asesiadau sy'n rhoi ystyriaeth i natur demograffig ardaloedd a wasanaethir.

Enghraifft allweddol 1

Wrth sefydlu canolfannau galw – mae Heddlu Gogledd Cymru ar hyn o bryd yn cydweithio ag asiantaethau eraill i greu canolfan alwadau ganolog yn Llanelwy ar gyfer darparu gwasanaethau ffôn. Oherwydd natur ieithyddol yr ardal a wasanaethir, dynodwyd nifer sylweddol o'r swyddi o fewn y ganolfan yn 'Cymraeg yn hanfodol'. Dylai'r strwythur newydd annog cyfleoedd tebyg i wella'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n hanfodol er mwyn cynnig gwasanaethau plismona 'lleol' o safon.

Enghraifft allweddol 2

Dywed cymal 1.32 adroddiad yr Arolygiaeth bod pobl yn uniaethu â

"……..a discrete neighbourhood, wanting an identifiable, named local officer."

Dylai strwythur newydd yr heddluoedd ganiatáu ystyriaeth briodol i'r iaith o fewn prosesau recriwtio a hyfforddi, er sicrhau bod gan heddweision a swyddogion y sgiliau ieithyddol priodol er plismona'n llwyddiannus ar lefel lleol. Mae 'An Garda Siochana', Heddlu Gweriniaeth Iwerddon, wedi profi cryn lwyddiant drwy weithredu polisi sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob heddwas newydd gyrraedd lefel cydnabyddedig o allu Gwyddeleg o fewn cyfnod penodol o amser. Credwn y dylai'r strwythur newydd alluogi heddluoedd yng Nghymru i fabwysiadu arferion gorau o'r fath gan heddluoedd eraill er cynyddu eu gallu i blismona'n effeithiol yn lleol. Mae na enghreifftiau yng Nghymru o heddluoedd yn buddsoddi cryn amser ac arian yn datblygu sgiliau Cymraeg eu staff. Dylai'r strwythur newydd ganiatáu y defnydd gorau o'r buddsoddiad mewn sgiliau ieithyddol gan heddluoedd yng Nghymru er mwyn gwasanaethu cymunedau'n effeithiol.

Byddai'n fanteisiol pe bai'r strwythur newydd yn caniatáu gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg sy'n gosod targedau cyffredin ac amserlen penodol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth Gymraeg ar hyd a lled Cymru. **Dylai strwythur newydd yr heddluoedd yng Nghymru sicrhau y gall heddluoedd ymhòb rhan o Gymru sefydlu a gweithredu gweithdrefnau monitro safon y ddarpariaeth Gymraeg.**

O brofiad, mae cyrff cyhoeddus sydd yn mwynhau cefnogaeth i'r iaith ymysg uwch swyddogion yn gweithredu mesurau cynlluniau iaith yn fwy effeithiol nag eraill. Yng nghyd-destun plismona lleol, mae arweiniad medrus yn golygu medru arwain ar faterion sy'n bwysig i gymunedau lleol. Mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru bydd hyn yn cynnwys y gallu i arwain ar faterion ieithyddol ac i siarad Cymraeg. **Argymhellwn felly bod strwythur yr heddluoedd yn y dyfodol yn cynnig pob cyfle posib i uwch swyddogion o fewn sefydliadau newydd i feddu ar ddealltwriaeth o'r iaith Gymraeg.**

ii) Effaith unrhyw newid ar aelodaeth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a threfniadau partneriaeth eraill

Un o feini prawf adroddiad yr Arolygiaeth yw 'co-terminosity', sef yr angen i ystyried ffiniau gwleidyddol a partneriaethol. O safbwynt ieithyddol, gallwn gadarnhau bod heddluoedd Cymru eisoes yn cydweithio er gwella safonau'r ddarpariaeth Gymraeg. Mae uwch swyddogion heddluoedd Cymru'n cwrdd a'i gilydd yn grŵp WACPO lle rhoddir ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Mae cymal 1.53 yr adroddiad, sy'n ffocysu ar drefniant 'lead regional force', yn sôn am adeiladu ar isadeiledd, prosesau a threfniadau partneriaethol sy'n bodoli eisoes. **Argymhellwn yn gryf na ddylai unrhyw newid i strwythur heddluoedd Cymru amharu ar allu heddluoedd i gydweithio er cynyddu'r gallu i blismona'n lleol yn effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Dywed adroddiad yr Arolygiaeth y dylid ystyried cryfderau gwahanol 'bartneriaid' wrth ad-drefnu. Yng Nghymru, mae gallu heddluoedd i gynnig gwasanaethau cyfrwng y Gymraeg o safon yn amrywio'n sylweddol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau llwyddiannus iawn ar gyfer plismona yn Gymraeg. O fewn strwythur 'lead force', byddai heddluoedd eraill Cymru mewn sefyllfa i fanteisio ar y gwaith da sydd wedi ei wneud gan Heddlu Gogledd Cymru drwy fabwysiadu'r polisïau a gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w amgylchiadau 'lleol' hwy. Mae'r iaith Gymraeg wrth gwrs yn rhan bwysig o gymunedau ar hyd a lled Cymru.

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at oblygiadau posib unrhyw newid ar sefydliadau cysylltiol. Mae'r heddluoedd yn dibynnu ar sefydliadau cysylltiol, sydd wedi eu lleoli tu allan i Gymru, i ddarparu amryw o wasanaethau. Mae anallu nifer o'r cyrff hyn i ddarparu gwasanaethau sydd yn gydnaws â chynlluniau iaith yr heddluoedd yn cael sgil effaith negyddol ar allu heddluoedd Cymru i blismona'n effeithiol drwy gyfrwng y Gymraeg. **Dylid cytuno ar welliannau trefniadol angenrheidiol fel rhan o'r ail strwythuro hwn er mwyn sicrhau nad yw heddluoedd Cymru yn ei chael yn anodd i gwrdd a gofynion statudol eu cynlluniau iaith Gymraeg.**

Enghraifft allweddol 3

Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu deunyddiau a chanllawiau i heddluoedd yng Nghymru, mae PITO'n daparu meddalwedd i heddluoedd, mae Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi yn arolygu perfformiad heddluoedd yng Nghymru ac mae CENTREX yn gweinyddu prosesau recriwtio heddluoedd yng Nghymru. Hyd yma mae'r holl gyrff canolog hyn wedi anwybyddu'r iaith i raddau helaeth wrth ddylanwadu ar waith heddluoedd, o ganlyniad nid oes meddalwedd Cymraeg ar gael i hwyluso darpariaeth gwasanaethau Cymraeg, nid yw'r Arolygiaeth yn monitro safon gwasanaethau Cymraeg yr heddluoedd ac ni roddir ystyriaeth i'r iaith wrth recriwtio i'r heddluoedd yng Nghymru. Yn sgil dylanwad y cyrff hyn, mae gallu heddluoedd yng Nghymru i gynnig safon uchel o wasanaeth 'lleol', sy'n gweddu amrywiaeth ieithyddol cymunedau yng Nghymru, wedi ei gyfyngu. Credwn ei bod yn hollbwysig felly, wrth ystyried ailstrwythuro'r heddluoedd yng Nghymru, i ystyried hefyd strwythur a dylanwad cyrff fel y rhai uchod sy'n rheoli i raddau helaeth llwyddiant plismona lleol yng Nghymru.

Enghraifft allweddol 4

Datblygu meddalwedd i gofnodi manylion unigolion yn y ddalfa – Datblygwyd meddalwedd cyfrifiadurol 'NSPIS' gan y 'Police Information Technology Organisation' rhai blynyddoedd yn ôl, wedi ei ariannu gan holl heddluoedd Cymru a Lloegr, er cofnodi manylion unigolion yn y ddalfa, ac er paratoi achosion yn erbyn unigolion. Hyd yn ddiweddar iawn, nid yw'r feddalwedd a ddatblygwyd wedi caniatáu heddluoedd Cymru i gofnodi dewis iaith unigolion yn y ddalfa, nac ychwaith i gynhyrchu dogfennau yn Gymraeg ar gyfer achosion cyfreithiol. Dylai'r strwythur newydd anelu i gynnig cyfleoedd newydd i heddluoedd Cymru i sicrhau ystyriaeth briodol i'r iaith o fewn mentrau newydd o'r fath, sydd yn effeithio'n sylweddol ar eu gallu i gynnig cyfle cyfartal i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae'r heddluoedd yn cydweithio'n agos â nifer asiantaethau cyfiawnder troseddol megis llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Wrth newid strwythur un o'r asiantaethau hyn, fe allai gael traw effaith ar allu'r asiantaethau eraill i gynnig ystod o wasanaethau Cymraeg o safon i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae adroddiad yr Arolygiaeth yn rhoi cryn ffocws ar bwysigrwydd datblygu gwasanaethau plismona lleol (cymal 1.7), rhaid cofio bod asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn cynnig gwasanaethau 'lleol' eu natur hefyd, yn aml drwy gydweithio â heddluoedd. Enghraifft amlwg o hyn yw gwaith y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol. **Dylai unrhyw ailstrwythuro posib anelu i gryfhau potensial partneriaethau o'r fath i gynnig gwasanaethau sy'n gweddu'r gymdeithas leol, gan gynnwys cynnig gwasanaethau yn Gymraeg.**

iii) y berthynas rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth au hynny sy'n dod yn uniongyrchol o fewn maes cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Dywed cymal 1.46 adroddiad yr Arolygiaeth bod ffiniau gwleidyddol a phartneriaethol yn ystyriaethau pwysig ar gyfer cynllunio'r strwythur newydd. Ym marn y Bwrdd dylai unrhyw drefniant barchu natur ieithyddol Cymru. Credwn bod angen i unrhyw newid i strwythur heddluoedd Cymru anelu at gwrdd ag amcanion Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru, laith Pawb, sef o

".....fod yn genedl wirioneddol ddwyieithog, sef gwlad lle gall pobl ddewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg neu Saesneg.....".

Dylai'r strwythur newydd ganiatáu heddluoedd Cymru i barhau i weithio tuag at gyflawni targed laith Pawb o fedru darparu mwy o blismona lleol yn Gymraeg:-

"....ei bod yn bosibl i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau, trwy gyfrwng y Gymraeg."

Dim ond trwy ddewis opsiwn fydd yn caniatáu gweithrediad targedau laith Pawb fydd hi'n bosibl i roi *".....a human, accessible, accountable face on the imposing institution of policing....." ar hyd a lled Cymru (cymal 1.42).*

Yn y cyd destun hwn y mae gofyn ystyried trefniadau cyllido. Dywed cymal 10.18 adroddiad yr Arolygiaeth

"...any move to a more strategic organisation of policing needs to take place in a carefully planned and measured way which reduces the short-term risks as far as possible and keeps a clear line of sight on the benefits to be realised."

Dengys y mapiau ar dudalennau 43 – 47 adroddiad yr Arolygiaeth bod yr angen am wasanaethau amddiffynnol yn llai yn Nghymru nag mewn ardaloedd eraill, gan fod achosion o weithgaredd sy'n gofyn am wasanaethau amddiffynnol yn llai. Dylai trefniannau cyllido heddluoedd Cymru felly ganiatáu darpariaeth uwch o adnoddau ar gyfer anghenion plismona lleol. Fel yr ydym wedi sôn eisoes, un o'r anghenion plismona lleol sy'n gyson ac sy'n cynyddu ar hyd a lled Cymru yw'r angen i gynnig gwasanaethau Cymraeg sy'n ateb gofynion y canran cynyddol o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Dylid ystyried gwerth cadw trefniadau cyllido presennol, er enghraifft ariannu datblygiad meddalwedd a prosesau recriwtio yn ganolog drwy sefydliadau fel PITO a CENTREX lle nad ydynt yn rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. **Dylai unrhyw ailstrwythuro ariannol fod yn gyfle i wella safonau plismona lleol yng Nghymru drwy alluogi heddluoedd i flaenoriaethu'r cyllid er ateb y gofynion lleol.**

I gloi, credwn bod y penderfyniad i ailstrwythuro heddluoedd yn cynnig cyfle arbennig i wella safonau plismona yng Nghymru. Mae manteision ac anfanteision ynghlwm â phob un o'r opsiynau ar gyfer ailstrwythuro a nodir yn adroddiad yr Arolygiaeth. Yr hyn sy'n bwysig, o safbwynt ieithyddol, yw bod y newid yn seiliedig ar ".....capacity building....." yn hytrach nag egwyddor o sicrhau arbedion (cymal 1.34).

Mae darpariaeth Gymraeg heddluoedd Cymru'n amrywio'n sylweddol o ran argaeledd a safon ar hyd a lled y wlad. Hyderwn y bydd unrhyw newid strwythurol yn creu cyfleoedd am welliannau i'r ddarpariaeth Gymraeg yn hytrach na chreu rhwystrau i welliant a chaniatáu cynydd mewn cyfleoedd i'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym myd plismona yng Nghymru.

Hyderwn y bydd y pwyntiau a nodir yn yr adroddiad hwn o ddefnydd i chi wrth ystyried a thrafod y broses o ailstrwythuro heddluoedd Cymru. Diolch i chi eto am y cyfle i gael cyfrannu ar y drafodaeth, os hoffech drafod cynnwys ein adroddiad ymhellach cysylltwch â mi a chroeso.

Yn gywir

MEIRION PRYS JONES
Prif Weithredwr